

Blynyddoedd Cynnar Cymru – ymchwiliad data yn ystyried effaith y codiad 2024 mewn Cyflog Byw Cenedlaethol

Crynodeb

Gyda'r newidiadau arfaethedig i'r Cyflog Byw Cenedlaethol fe wnaeth Blynyddoedd Cynnar Cymru arolwg â'i aelodau i adolygu effaith y costau ychwanegol ar eu modelau cyllidebol. Yng Nghymru, mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal plant lle mae teuluoedd yn defnyddio oriau a ariennir yn parhau i fod yn £5/awr ac mae disgwyl iddo gael ei adolygu yn 2025. Roedd yr arolwg hwn ar agor ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023.

Mae'r ffigyrau pennawd yn dangos:

- **84% o aelodau'n anghytuno bod y codiad yn yr isafswm cyflog yn fforddiadwy yn seiliedig ar y modelau cyllido presennol a phwysau eraill ar gostau.**
- **91% yn ystyried neu'n codi ffioedd rhieni.**
- **Nid yw 94% yn credu bod y gyfradd a ariennir yn talu costau darparu lleoedd gofal plant.**
- **Mae bron pob darparwr yn credu y dylid adolygu'r gyfradd yn flynyddol neu ei symud yn unol â chwyddiant trwy ryw fecanwaith.**
- **Mae 72% yn hyderus y gallant gynnal y model presennol am flwyddyn, 20.2% am 2 flynedd, a dim ond 8.8% am y pum mlynedd nesaf.**
- **Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn nodi bod cyfraddau cyllido rhwng £6-£8 (mae'r amrediad yn dod o £5/awr - £10/awr) yn fwy priodol na'r £5 yr awr bresennol.**

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn galw am adolygiad i'r gyfradd ddechrau cyn gynted â phosibl, archwilio'r mecanweithiau ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol ac yn amlach na 3 blynedd, ac unrhyw fesurau interim i gefnogi'r sector a ystyriwyd mewn ymateb i bryder y sector.

Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU'r codiad i'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Derbyniodd Llywodraeth y DU argymhellion y Comisiwn Cyflogau Isel yn llawn. Wrth wneud hynny, mae'r cyflog uchaf a nodwyd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol wedi'i gymhwyso i bob gweithiwr 21 oed a hŷn (a gymhwyswyd yn flaenorol i 23 oed a hŷn) ac wedi cynyddu gan ganran sylweddol o'r cyflog blaenorol fel yr amlinellwyd yn y tabl isod.

The rates which will apply from 1 April 2024 are as follows:

	Cyfradd ICC	Codiad mewn ceiniogau	Codiad fel Canran
Cyflog Byw Cenedlaethol (21 oed a hŷn)	£ 11.44	£ 1.02	9.8%
Cyfradd Oedran 18-20	£ 8.60	£ 1.11	14.8%
Cyfradd Oedran 16-17	£ 6.40	£ 1.12	21.2%
Cyfradd Prentis	£ 6.40	£ 1.12	21.2%
Credyd Llety	£ 9.99	£ 0.89	9.8%

Newidiadau i'r Cyflog Byw Cenedlaethol ers 2021

Mae'r codiad blynyddol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ers 2021 wedi'u hamlinellu isod:

2021: £8.91 (23 oed a throsodd)

2022: £9.50 (23 oed a throsodd) +6.6%

2023: £10.42 (23 oed a throsodd) +9.7%

2024: £11.44 (21 oed a throsodd) +9.8%

Codiad cronedig o 28.4% rhwng 2021 a 2024.

Cyllid a chostau ar gyfer lleoliadau

Yn ystod y cyfnod hwn mae'r gyfradd a ariennir a delir i ddarparwyr gofal plant wedi codi o £4.50 i £5.00 yr awr (+11.1%). Cododd y gost a ganiateir ar gyfer darparu bwyd hefyd o £7.50 i £9.00 yr awr ym mis Ebrill 2022 i fyfrio costau cynyddol o ddarparu bwyd addas.

Ers mis Ebrill 2022, mae chwyddiant a chostau cyfleustodau wedi parhau i ychwanegu pwysau at gyllidebau a chynaliadwyedd y sector gofal plant. Yn ôl Banc Lloegr mae £9 yn 2022 nawr yn cyfateb i £9.74.ⁱ

Ymchwiliad data

Yn dilyn sgysiau gyda'n haelodau sy'n pryderu am eu cynaliadwyedd a'u gallu i gwrdd â'r costau staffio cynyddol arfaethedig ym mis Ebrill 2024, gwnaeth Blynyddoedd Cynnar Cymru cynnal arolwg ag aelodau i ofyn cwestiynau am effaith y codiad yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ar eu rhagamcanion busnes ar gyfer 2024/25. Mewn un sgwrs o'r fath, amlinellodd y lleoliad y byddai angen i'w cyllideb staff blynyddol godi £20k i ddarparu'r newidiadau i'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Byddai'r codiad hwn ond yn caniatáu i staff cymwys lefel 5 dderbyn y lleiafswm statudol.

Rhaid nodi bod Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cefnogi'r cysyniad o gyflog cynyddol i'r sector ac i ymarferwyr dderbyn cyflog teg am y gwaith o ansawdd uchel y maent yn ei wneud gyda phlant. Mae hefyd yn rhan o'n cyfrifoldeb i'n haelodau adolygu eu pryderon a chyflwyno eu data i ddangos y tensiynau yn y sector.

Yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd 2023, anfonodd Blynyddoedd Cynnar Cymru arolwg byr at yr holl leoliadau sy'n aelodau. Cynhaliwyd yr arolwg hwn tan ddydd Gwener 22 Rhagfyr 2023 ac oedd yn seiliedig ar ddim newidiadau i'r cyfraddau ar gyfer gofal plant a ariennir yng Nghymru yn 2024/25.

Canlyniadau'r Arolwg

Nifer yr ymatebion:


159 (yn cynnwys 155 o ymatebion Saesneg a 4 wedi eu derbyn yn Gymraeg). Er symlrwydd trosglwyddo data, bydd pob siart yn rhoi'r ymatebion Saesneg cyntaf ac yna ymateb Cymraeg yn hytrach nag ail-weithio'r holl ddata yn gronol.

Cwestiynau ac atebion.

1. Math o leoliad


1. Setting type:

● Full Day Care	100
● Sessional	47
● Out of School Club	14
● Childminder	22
● Crèche	1



1. Math o leoliad:

● Gofal Dydd Llawn	3
● Sesiynol	0
● Clwb Gofal Plant ar ôl ysgol	1
● Gofalwr Plant	1
● Crèche	0



2. Ardal Awdurdod Lleol (data cyfunol Cymraeg a Saesneg)

Abertawe	7
Blaenau Gwent	0
Bro Morgannwg	10
Caerdydd	15
Caerffili	9
Casnewydd	14
Castell-nedd Port Talbot	6
Ceredigion	2
Conwy	7
Fflint	22
Gwynedd	0



Merthyr Tudful	2
Pen-y-bont	4
Powys	3
Rhondda Cynon Taf	24
Sir Benfro	5
Sir Ddinbych	1
Sir Fynwy	10
Sir Gaerfyrddin	7
Torfaen	3
Wrecsam	9
Ynys Môn	4

3. Statws Cyfreithiol

3. Legal status

● Voluntary managed	37
● Private Business	87
● Sole Trader	31

● Gwirfoddol a realir	0
● Busnes	3
● Unig Fasnachwr	1



4. Gwasanaethau a gynigir.

● Early Education	106
● Flying Start	84




● Addysg Gynnar	0
● Dechrau'n Deg	2




5. A fydddech chi'n cytuno bod y codiad i'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn fforddiadwy o fewn eich incwm / gwariant cyfredol?

● Strongly agree	0
● Agree	7
● Unsure	18
● Disagree	48
● Strongly disagree	82



● Cytuno'n gryf	0
● Cytuno	0
● Ansicr	1
● Anghytuno	0
● Anghytuno'n gryf	3



6. Yn seiliedig ar eich model busnes cyfredol, sut y bydd y codiad mewn isafswm cyflog yn effeithio ar eich busnes?


147 o ymatebion ysgrifenedig cyfrwng Saesneg. Nifer sylweddol yn bryderus iawn am gynaliadwyedd; 'Methu fforddio hyn fel busnes', 'Bydd yn ein gwneud ni'n cau lawr', 'Ynghyd â phrisiau ynni a chost bwyd rydyn ni'n mynd i gael trafferth cynnal lefel y gwasanaeth. Efallai y bydd yn rhaid i ni leihau nifer y staff a allai effeithio ar nifer y plant sydd gennym.', 'Bydd yn effeithio'n sylweddol ac yn niweidiol ar allu'r busnesau (sic) i barhau i fforddio adnoddau, offer a chynnal a chadw'r adeilad o safon. Bydd yn lleihau faint o fudd-daliadau lles y gallwn eu cynnig i staff ac yn effeithio ar y gallu i fforddio anfon staff ar unrhyw gyrsiau y tu allan i'r rhai gorfodol.

Gyda'r angen i wthio'r cynnydd i ffioedd rhieni, rydym eisoes yn gweld gostyngiad yn y niferoedd oherwydd fforddiadwyedd rhieni, gostyngiad yn nifer y sesiynau sy'n mynychu bob wythnos - a fydd yn cael effaith ar angen i ni leihau contractau staff yn y pen draw, a allai wedyn olygu ein bod yn colli staff ar adeg lle mae recriwtio ar adeg argyfwng beth bynnag.', "Mae unrhyw godiad yn yr isafswm cyflog yn effeithio ar bob gweithiwr gan fod angen codi cyflogau ar draws y bwrdd i barhau i adlewyrchu gwobr am brofiad, cyfrifoldeb, cymwysterau ac ati. Mae costau ychwanegol fel Yswiriant Gwladol, Tâl Salwch a Phensiynau hefyd yn codi.', 'Rydym mewn gwirionedd yn codi tâl yr awr felly yn dibynnu ar y sesiwn rydym eisoes yn colli rhwng 3 ac 8% y sesiwn. Gall ein colled codi yn unig. Yn ateb i'ch cwestiwn nesaf. Sut alla i gynyddu'r gyfradd i rieni pan na fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i mi wneud hynny.'


Mae lleiafrif nad ydynt yn gweld yr effaith yn negyddol. Mae rhai o'r rhain yn warchodwyr plant sydd o bosibl yn cael llai o amlygiad i ddylanwad cyflog staff.
(Gall y data llawn fod ar gael)

7. Er mwyn rheoli unrhyw gynnydd mewn costau staff, a fydddech chi'n ystyried cynyddu ffioedd i rieni?

● Yes	136
● No	14



● Ydw	4
● Nac ydw	0




8. Os fydddech, gan faint?


139 o ymatebion gyda chodiad unigol iawn yn seiliedig ar y math o ymateb. Rhai yn nodi codiad o 10%, rhai yn ychwanegu £1-2 yr awr, rhai yn codi costau dyddiol o £5. Nododd nifer o ymatebwyr mai dim ond ar gyfer oriau/gofal plant heb eu hariannu y mae hyn yn bosibl. Mae nifer sy'n nodi bod mwy na *xpx* / *awr* yn arwain at rieni gollwng oriau wedi'u trefnu neu'n edrych yn rhywle arall.

9. A yw'r gyfradd gofal plant a ariennir (£5/awr) yn talu cost rhedeg eich gwasanaeth?

● Yes	9
● No	146



● Ydw	0
● Nac ydw	4




10. Beth ydych chi'n meddwl dylai'r codiad nesaf mewn cyfraddau fod i wneud eich gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir? (£x/awr)

146 o ymatebion yn amrywio o 50c yr awr yn fwy i £9.50 yr awr

11. A ydych chi'n credu bod adolygiad tair blynedd o gyfraddau ariannu yn ddigon aml?

● Yes	7
● No	148



● Ydw	0
● Nac ydw	4




12. Pa mor aml ydych chi'n meddwl y dylid adolygu'r pris?


152 o ymatebion fwyaf yn nodi bob blwyddyn.

13. Yn seiliedig ar eich incwm cyfredol (ffioedd a darpariaeth wedi'i hariannu), gwariant a rhagamcanion, a ydych chi'n credu bod eich busnes yn gynaliadwy a bod gennych hyder y byddwch chi'n gallu darparu'r un lefel gwasanaeth yn:

● 1 years time	105
● 2 years time	30
● 5 years' time	13



● 1 mlynedd	1
● 2 flynedd	3
● 5 mlynedd o amser	0



Crynodeb

Rydym yn gwybod bod ymatebion i ymchwiliad data yn cael eu dylanwadu gan lefel y pryder y mae pwnc yn ei greu i ddarparwyr ac arweinwyr. Mae'r gyfradd ymateb o 15.4% o aelodau cymwys yn ddigon i gael ei ystyried yn elw da ac er hynny mae'n cynrychioli nifer sylweddol o ddarparwyr a lleoedd gofal plant. Mae o leiaf 20 o 22 ardal awdurdod lleol yn cael eu cynrychioli gan o leiaf un ymateb.

Mae'r sector wedi wynebu pwysau gan ddylanwadau allanol ers y pandemig yn 2020 ac mae'n cael trafferth cynnal y ddarpariaeth bresennol oherwydd bod grymoedd y farchnad yn gweithredu arno. Er ei bod yn cydnabod ei bod yn amhosibl cwrdd â'r gofynion uchaf a nodwyd yn yr arolwg ar gyfer cyfraddau cyllido, a bod pwysau sylweddol ar draws holl gyllidebau Llywodraeth Cymru yn 2024/25, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn pryderu y bydd y gyfradd ariannu sefydlog yn arwain at gau sy'n arwain at fwy o bwysau ar ddarparwyr eraill ac yn tansilio'r uchelgais i ehangu gwasanaethau gofal plant i blant 2 oed.

Rhennir y data hwn, fel y'i derbynnir, gyda'r bwriad o ddarparu cynrychiolaeth ystadegol o'r pryder a leisiwyd yn ein haelodaeth a'u sgysiau gyda Blynyddoedd Cynnar Cymru.

ⁱ <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy/inflation/inflation-calculator>